



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2022 Rhif 355 (Cy. 88)**

**2022 No. 355 (W. 88)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

Rheoliadau Deddf Llywodraeth  
Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021  
(Diwygiadau Canlyniadol a  
Darpariaeth Drosiannol) (Prif  
Weithredwyr) 2022

The Local Government and  
Elections (Wales) Act 2021  
(Consequential Amendments and  
Transitional Provision) (Chief  
Executives) Regulations 2022

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021"). Mae adran 54 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) benodi prif weithredwr. Mae'r gofyniad hwn yn disodli'r gofyniad ar brif gynghorau i ddynodi un o'u swyddogion yn bennaeth eu gwasanaeth taledig o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989").

These Regulations make amendments which are consequential on section 54 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 ("the 2021 Act"). Section 54 requires principal councils (county councils and county borough councils) to appoint a chief executive. This requirement replaces the requirement on principal councils to designate one of their officers as head of their paid service under section 4 of the Local Government and Housing Act 1989 ("the 1989 Act").

Mae rheoliad 9(1) yn ddarpariaeth drosiannol, sy'n darparu bod y swyddog a ddynodwyd yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod o dan adran 4 o Ddeddf 1989 yn union cyn 5 Mai 2022 i'w drin fel y prif weithredwr o dan adran 54 o Ddeddf 2021. Mae rheoliad 9(2) yn darparu nad yw'r gyfundrefn benodi a nodir ym mharagraffau 1 a 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 yn gymwys i bennaethiaid gwasanaeth taledig sy'n cael eu trin fel prif weithredwyr o dan reoliad 9(1).

Regulation 9(1) is a transitional provision, which provides that the officer that is designated as the head of the authority's paid service under section 4 of the 1989 Act immediately before 5 May 2022 is to be treated as the chief executive under section 54 of the 2021 Act. Regulation 9(2) provides that the appointment regime as set out in paragraphs 1 and 2 of Part 1 of Schedule 1 to the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006 does not apply to heads of paid service treated as chief executives under regulation 9(1).

Mae rheoliad 10 yn dirymu rheoliad 11 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006.

Regulation 10 revokes regulation 11 of the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

**2022 Rhif 355 (Cy. 88)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**Rheoliadau Deddf Llywodraeth  
Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021  
(Diwygiadau Canlyniadol a  
Darpariaeth Drosiannol) (Prif  
Weithredwyr) 2022**

*Gwnaed* 22 Mawrth 2022  
*Gosodwyd* *gerbron* *Senedd*  
*Cymru* 25 Mawrth 2022  
*Yn dod i rym* 5 Mai 2022

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 173(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(1) ac adran 8(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(2).

**Enwi a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaeth Drosiannol) (Prif Weithredwyr) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Mai 2022.

**2022 No. 355 (W. 88)**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

**The Local Government and  
Elections (Wales) Act 2021  
(Consequential Amendments and  
Transitional Provision) (Chief  
Executives) Regulations 2022**

*Made* 22 March 2022  
*Laid before Senedd Cymru* 25 March 2022  
*Coming into force* 5 May 2022

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the power conferred on them by section 173(1) of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021(1) and section 8(4) of the Local Government and Housing Act 1989(2).

**Title and commencement**

1.—(1) The title of these Regulations is the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (Consequential Amendments and Transitional Provision) (Chief Executives) Regulations 2022.

(2) These Regulations come into force on 5 May 2022.

(1) 2021 dsc 1.

(2) 1989 p. 42. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 8(4), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2(1) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(1) 2021 asc 1.

(2) 1989 c. 42. Functions of the Secretary of State under section 8(4) were, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by virtue of article 2(1) of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). Those functions are now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Contractau) 1997

2.—(1) Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Contractau) 1997(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7(3) (llofnodi tystysgrifau – awdurdodau â phrif swyddog cyllid), ar ôl “1989 Act” mewnosoder “other than a county council or county borough council in Wales.”

(3) Ar ôl rheoliad 7(3), mewnosoder—

“(4) A county council or county borough council in Wales which is under a duty to appoint a chief executive under section 54 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 must ensure that a certificate issued by it is signed by one of the following officers of the council—

- (a) one of the statutory chief officers within the meaning given to that expression in section 2(6) of the 1989 Act;
- (b) a non-statutory chief officer within the meaning given to that expression in section 2(7) of the 1989 Act; or
- (c) a deputy chief officer within the meaning given to that expression in section 2(8) of the 1989 Act.”

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006

3.—(1) Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(3) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o “prif swyddog”, yn lle paragraff (a) rhodder—

“(a) ei brif weithredwr;”;

(b) hepgorer y diffiniad o “pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod”;

(c) yn y lle priodol, mewnosoder—

“ystyr “prif weithredwr” (“*chief executive*”) yw'r person a benodir yn brif weithredwr o dan adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;”.

(3) Yn rheoliad 7(2)(a)(4) (rheolau sefydlog yn ymwneud â staff), yn lle “pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod” rhodder “prif weithredwr yr awdurdod”.

## The Local Authorities (Contracts) Regulations 1997

2.—(1) The Local Authorities (Contracts) Regulations 1997(1) are amended as follows.

(2) In regulation 7(3) (signature of certificates – authorities with a chief finance officer), after “1989 Act” insert “other than a county council or county borough council in Wales.”

(3) After regulation 7(3), insert—

“(4) A county council or county borough council in Wales which is under a duty to appoint a chief executive under section 54 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 must ensure that a certificate issued by it is signed by one of the following officers of the council—

- (a) one of the statutory chief officers within the meaning given to that expression in section 2(6) of the 1989 Act;
- (b) a non-statutory chief officer within the meaning given to that expression in section 2(7) of the 1989 Act; or
- (c) a deputy chief officer within the meaning given to that expression in section 2(8) of the 1989 Act.”

## The Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006

3.—(1) The Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006(2) are amended as follows.

(2) In regulation 2(3) (interpretation)—

(a) in the definition of “chief officer”, for paragraph (a) substitute—

“(a) its chief executive;”;

(b) omit the definition of “head of the authority’s paid service”;

(c) in the appropriate place, insert—

““chief executive” (“*prif weithredwr*”) means the person appointed as chief executive under section 54 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021;”.

(3) In regulation 7(2)(a)(4) (standing orders relating to staff), for “head of the authority’s paid service” substitute “authority’s chief executive”.

(1) O.S. 1997/2862.

(2) O.S. 2006/1275 (Cy. 121).

(3) Y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(4) Amnewidiwyd rheoliad 7 gan reoliad 6 o O.S. 2014/1514 (Cy. 155).

(1) S.I. 1997/2862.

(2) S.I. 2006/1275 (W. 121).

(3) To which there are amendments not relevant to these Regulations.

(4) Regulation 7 was substituted by regulation 6 of S.I. 2014/1514 (W. 155).

(4) Yn rheoliad 8(1)(1) (rheolau sefydlog o ran camau disgyblu), yn lle “pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod” rhodder “prif weithredwr yr awdurdod”.

(5) Yn lle rheoliad 9(1A)(a)(2) (ymchwilio i gamymddwyn honedig) rhodder—

“(a) prif weithredwr yr awdurdod;”.

(6) Yn Rhan 1 o Atodlen 3(3) (awdurdod gyda maer a chabinet gweithredol)—

(a) ym mharagraff 2, yn lle’r geiriau o “y swyddog a ddynodwyd” hyd at y diwedd, rhodder “y person a benodwyd yn brif weithredwr yr awdurdod neu gan swyddog a enwebwyd gan brif weithredwr yr awdurdod”;

(b) yn lle paragraff 3(1)(a) rhodder—

“(a) y person a benodwyd yn brif weithredwr yr awdurdod;”;

(c) ym mharagraff 4(1), yn lle “swyddog a ddynodwyd yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod” rhodder “person a benodwyd yn brif weithredwr yr awdurdod”.

(7) Yn Rhan 2 o Atodlen 3(4) (awdurdod gydag arweinydd a chabinet gweithredol)—

(a) ym mharagraff 2, yn lle’r geiriau o “y swyddog a ddynodwyd” hyd at y diwedd, rhodder “y person a benodwyd yn brif weithredwr yr awdurdod neu gan swyddog a enwebwyd gan brif weithredwr yr awdurdod”;

(b) yn lle paragraff 3(1)(a) rhodder—

“(a) y person a benodwyd yn brif weithredwr yr awdurdod;”;

(c) ym mharagraff 4(1), yn lle “swyddog a ddynodwyd yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod” rhodder “person a benodwyd yn brif weithredwr yr awdurdod”.

(8) Yn Atodlen 4(5) (darpariaethau i’w hymgorffori yn y rheolau sefydlog parthed camau disgyblu)—

(a) ym mharagraff 1, yn lle “pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod” (“*head of the authority’s paid service*”) rhodder ““prif weithredwr” (“*chief executive*”);

(b) ym mharagraff 2(1), yn lle “pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod” rhodder “prif weithredwr yr awdurdod”.

(4) In regulation 8(1)(1) (standing orders in respect of disciplinary action), for “head of the authority’s paid service” substitute “authority’s chief executive”.

(5) For regulation 9(1A)(a)(2) (investigation of alleged misconduct) substitute—

“(a) the authority’s chief executive;”.

(6) In Part 1 of Schedule 3(3) (authority with mayor and cabinet executive)—

(a) in paragraph 2, for the words from “the officer designated” to the end, substitute “the person appointed as the authority’s chief executive or by an officer nominated by the authority’s chief executive”;

(b) for paragraph 3(1)(a) substitute—

“(a) the person appointed as the authority’s chief executive;”;

(c) in paragraph 4(1), for “an officer designated as the head of the authority’s paid service” substitute “a person appointed as the authority’s chief executive”.

(7) In Part 2 of Schedule 3(4) (authority with leader and cabinet executive)—

(a) in paragraph 2, for the words from “the officer designated” to the end, substitute “the person appointed as the authority’s chief executive or by an officer nominated by the authority’s chief executive”;

(b) for paragraph 3(1)(a) substitute—

“(a) the person appointed as the authority’s chief executive;”;

(c) in paragraph 4(1), for “an officer designated as the head of the authority’s paid service” substitute “a person appointed as the authority’s chief executive”.

(8) In Schedule 4(5) (provisions to be incorporated in standing orders in respect of disciplinary action)—

(a) in paragraph 1, for “head of the authority’s paid service” (“*pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod*”) substitute ““chief executive” (“*prif weithredwr*”);

(b) in paragraph 2(1), for “the head of the authority’s paid service” substitute “the authority’s chief executive”.

---

(1) Diwygiwyd rheoliad 8 gan reoliad 7 o O.S. 2014/1514.

(2) Amnewidiwyd rheoliad 9(1A) gan reoliad 8 o O.S. 2014/1514.

(3) Diwygiwyd Rhan 1 o Atodlen 3 gan reoliad 10(1) o O.S. 2014/1514.

(4) Diwygiwyd Rhan 2 o Atodlen 3 gan reoliad 10(2) o O.S. 2014/1514.

(5) Diwygiwyd Atodlen 4 gan reoliad 11 o O.S. 2014/1514.

---

(1) Regulation 8 was amended by regulation 7 of S.I. 2014/1514.

(2) Regulation 9(1A) was substituted by regulation 8 of S.I. 2014/1514.

(3) Part 1 of Schedule 3 was amended by regulation 10(1) of S.I. 2014/1514.

(4) Part 2 of Schedule 3 was amended by regulation 10(2) of S.I. 2014/1514.

(5) Schedule 4 was amended by regulation 11 of S.I. 2014/1514.

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007**

4.—(1) Mae paragraff 12 o Ran Ff (swyddogaethau amrywiol) o'r tabl yn Atodlen 1 (swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod) i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle'r cofnod yng ngholofn 1, rhodder “Y ddyletswydd i benodi prif weithredwr, ac i ddarparu staff, etc.”

(3) Yn lle'r cofnod yng ngholofn 2, rhodder “Adran 54(1) a (6) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.”

**Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008**

5. Yng Ngorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008(2), ym mharagraff 8(a)(i) o Ran 1 o'r Atodlen (y cod ymddygiad enghreifftiol), ar y diwedd mewnosoder “ar gyfer awdurdodau heblaw cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, a phrif weithredwr yr awdurdod os yw'r awdurdod yn gyngor sir neu'n gyngor bwrdeistref sirol”.

**Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013**

6. Yn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013(3), yn lle rheoliad 3(5)(a) (awdurdodiadau gan awdurdodau bilio) rhodder—

“(a) y prif weithredwr a benodwyd o dan adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021; neu”.

**Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014**

7.—(1) Yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014(4), mae rheoliad 9(8) (datganiad o dâl) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y diffiniad o “prif weithredwr”—

(a) ym mharagraff (a), hepgorer y geiriau “gyngor sir neu'n gyngor bwrdeistref sirol,”;

**The Local Authorities (Executive Arrangements) (Functions and Responsibilities) (Wales) Regulations 2007**

4.—(1) Paragraph 12 of Part I (miscellaneous functions) of the table in Schedule 1 (functions not to be the responsibility of an authority's executive) to the Local Authorities (Executive Arrangements) (Functions and Responsibilities) (Wales) Regulations 2007(1) is amended as follows.

(2) For the entry in column 1, substitute “Duty to appoint a chief executive, and to provide staff, etc.”

(3) For the entry in column 2, substitute “Section 54(1) and (6) of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.”

**The Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2008**

5. In the Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2008(2), in paragraph 8(a)(i) of Part 1 of the Schedule (the model code of conduct), at the end insert “for authorities other than county councils and county borough councils, and the authority's chief executive if the authority is a county council or county borough council”.

**The Council Tax Reduction Schemes (Detection of Fraud and Enforcement) (Wales) Regulations 2013**

6. In the Council Tax Reduction Schemes (Detection of Fraud and Enforcement) (Wales) Regulations 2013(3), for regulation 3(5)(a) (authorisations by billing authorities) substitute—

“(a) the chief executive appointed under section 54 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021; or”.

**The Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014**

7.—(1) In the Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014(4), regulation 9(8) (declaration of remuneration) is amended as follows.

(2) In the definition of “chief executive”—

(a) in paragraph (a), omit the words “county council or county borough council,”;

(1) O.S. 2007/399 (Cy. 45), y mae diwygiadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2008/788 (Cy. 82).

(3) O.S. 2013/588 (Cy. 67), y mae diwygiadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(4) O.S. 2014/3362 (Cy. 337), y mae diwygiadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(1) S.I. 2007/399 (W. 45), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(2) S.I. 2008/788 (W. 82).

(3) S.I. 2013/588 (W. 67), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(4) S.I. 2014/3362 (W. 337), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(b) ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

“(aa) yn achos corff perthnasol sy’n gyngor sir neu’n gyngor bwrdeistref sirol, y prif weithredwr a benodwyd o dan adran 54 o Ddeddf 2021;”.

(3) Yn y diffiniad o “cyflogai hŷn”, yn lle paragraff (a)(i) rhodder—

“(i) yn achos corff perthnasol heblaw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, wedi ei ddynodi yn bennaeth y gwasanaeth cyflogedig o dan adran 4 o’r Ddeddf honno, ac yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, wedi ei benodi yn brif weithredwr o dan adran 54 o Ddeddf 2021;”.

### **Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Darganfod Twyll) (Cymru) 2014**

8. Yn Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Darganfod Twyll) (Cymru) 2014(1), yn lle rheoliad 3(5)(a) (awdurdodiad gan awdurdodau lleol) rhodder—

“(a) y swyddog a benodwyd yn brif weithredwr o dan adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021; neu”.

### **Darpariaeth drosiannol sy’n ymwneud â swyddogion cyfredol a ddynodwyd yn bennaethiaid y gwasanaeth taledig**

9.—(1) Mae’r swyddog a ddynodwyd yn bennaeth gwasanaeth taledig y cyngor sir neu’r cyngor bwrdeistref sirol yn union cyn 5 Mai 2022 i’w drin fel y prif weithredwr a benodwyd o dan adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(2) Nid yw’r swyddog a ddynodwyd yn bennaeth gwasanaeth taledig y cyngor sir neu’r cyngor bwrdeistref sirol yn union cyn 5 Mai 2022 yn ddarostyngedig i’r broses benodi o dan baragraffau 1 a 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 at ddibenion paragraff (1).

(b) after sub-paragraph (a) insert—

“(aa) in the case of a relevant body which is a county council or county borough council, the chief executive appointed under section 54 of the 2021 Act;”.

(3) in the definition of “senior employee”, for paragraph (a)(i) substitute—

“(i) in the case of a relevant body other than a county council or county borough council, has been designated as head of paid service under section 4 of that Act, and in the case of a county council or county borough council, has been appointed as chief executive under section 54 of the 2021 Act;”.

### **The Prevention of Social Housing Fraud (Detection of Fraud) (Wales) Regulations 2014**

8. In the Prevention of Social Housing Fraud (Detection of Fraud) (Wales) Regulations 2014(1), for regulation 3(5)(a) (authorisation by local authorities) substitute—

“(a) the officer appointed as chief executive under section 54 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021; or”.

### **Transitional provision relating to current officers designated as heads of paid service**

9.—(1) The officer designated as the head of the county council or county borough council’s paid service immediately before 5 May 2022 is to be treated as the chief executive appointed under section 54 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

(2) The officer designated as the head of the county council or county borough council’s paid service immediately before 5 May 2022 is not subject to the appointment process under paragraphs 1 and 2 of Part 1 of Schedule 1 to the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006 for the purposes of paragraph (1).

---

(1) O.S. 2014/826 (Cy. 84).

---

(1) S.I. 2014/826 (W. 84).

## Dirymu

10. Mae rheoliad 11 (darpariaethau trosiannol a chanlyniadol) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 wedi ei ddirymu.

## Revocation

10. Regulation 11 (transitional and consequential provisions) of the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006 is revoked.

*Rebecca Evans*

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o  
Weinidogion Cymru  
22 Mawrth 2022

---

©Hawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Finance and Local Government, one of  
the Welsh Ministers  
22 March 2022

---

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/355>

ISBN 978-0-348-39278-4



9 780348 392784